Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Gwynfa**

**Llanbedr**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

13/06/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Gwynfa

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Lewis Jones Care Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 6 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 14 Medi 2021 |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu ‘Cynnig Rhagweithiol’ ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae gan y bobl fywydau boddhaus. Maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau y maent yn eu mwynhau a chaiff yr hyn sy'n bwysig iddynt ei barchu. Ar y cyfan, mae'r bobl yn hapus, yn teimlo'n ddiogel ac yn mwynhau cydberthynasau da â'r staff gofal sy'n eu cefnogi. Mae trefniadau ar waith i gynnwys y bobl mewn trafodaethau am eu gofal a'u cymorth. Gwrandewir ar safbwyntiau'r bobl, a chânt eu gwerthfawrogi. Caiff y bobl eu cefnogi i ddilyn eu diddordebau unigol ac iddynt chwarae rhan yn y gymuned.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac mae systemau ar waith i ddiogelu iechyd a diogelwch y bobl. Fodd bynnag, byddai'n werth ailaddurno rhai ardaloedd o'r cartref. Ar y cyfan, mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd cyfforddus a chartrefol sy'n diwallu eu hanghenion. Mae ystafell pob unigolyn wedi'i haddurno a'i dodrefnu yn unol â'i ddewisiadau personol, ac yn cynnwys eitemau personol sy'n bwysig iddo.

Mae'r tîm o staff sefydlog a chyson yn adnabod y bobl yn dda ac yn llawn cymhelliant i ddarparu gofal a chymorth priodol gan hyrwyddo annibyniaeth y bobl ar yr un pryd. Fodd bynnag, nid yw'r cynlluniau personol yn cofnodi dymuniadau'r bobl na sut mae'r cymorth a ddarperir yn eu helpu i wneud cynnydd tuag at gyflawni canlyniadau llesiant cadarnhaol, bob amser.

Mae’r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth i siarad â'r bobl am y gofal a ddarperir iddynt ac i siarad â'r staff gofal. Mae wedi cynnal adolygiad o ansawdd y gofal, ond nid yw wedi gallu ei gwblhau o fewn yr amserlen ofynnol.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cyfrannu at benderfyniadau am eu bywydau o ddydd i ddydd yn gyson. Mae dewisiadau ar gael iddynt o ran y ffordd y maent am gael eu cefnogi a sut maent am dreulio eu hamser. Cânt eu cynnwys mewn trafodaethau am eu gofal a'u cymorth, ac mae'r staff gofal yn gwrando ar eu safbwyntiau. Mae gwybodaeth ysgrifenedig ar gael am y gwasanaeth y gall y bobl ddisgwyl ei gael ac maent yn gwybod sut i wneud cwyn, os bydd angen iddynt wneud hynny. Mae gwasanaeth eirioli ar gael i'r bobl.

Mae'r plant yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel. Maent yn hoffi byw yn y gwasanaeth ac yn canmol y staff gofal sy'n eu cefnogi. Darperir cymorth wedi'i gynllunio er mwyn galluogi'r bobl i gadw mewn cysylltiad â'u ffrindiau a'u teuluoedd. Mae'r bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cadarnhaol a gallant wneud y pethau sy'n bwysig iddynt. Mae'r staff gofal yn cefnogi'r bobl i gymryd rhan yn yr hobïau a'r diddordebau o'u dewis. Caiff y gweithgareddau y mae'r bobl yn hoffi cymryd rhan ynddynt eu trefnu fel bod ceir a'r staff gofal ar gael.  Mae'r lefelau staffio yn galluogi'r staff gofal i dreulio amser gyda'r bobl ar sail un i un gan gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol ar yr un pryd. Mae hyn yn annog y bobl i deimlo'n rhan o'u cymuned.

Ar y cyfan, caiff llesiant corfforol ac emosiynol y bobl eu hybu. Mae'r staff gofal yn helpu'r bobl i gael cyngor ar iechyd meddwl a gofal cymdeithasol pan fo angen, sy'n sicrhau bod y bobl yn aros mor iach â phosibl. Mae'r cartref yn cydgysylltu â gweithwyr proffesiynol arbenigol am iechyd a llesiant y bobl.

Mae systemau da ar waith i amddiffyn y bobl rhag niwed a chamdriniaeth. Mae pob aelod o'r staff gofal yn cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu. Mae'r staff gofal yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â rhoi gwybod am unrhyw bryderon a allai fod ganddynt am ddiogelwch y bobl y maent yn eu cefnogi. Mae polisïau a gweithdrefnau diogelu ar waith sy'n cefnogi'r staff gofal i amddiffyn y bobl rhag niwed.

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n cefnogi eu llesiant. Darperir gofal a chymorth mewn amgylchedd addas a chartrefol sy'n hyrwyddo ymdeimlad o berthyn y bobl. Caiff y cartref ei gadw'n lân ac yn daclus. Fodd bynnag byddai ailaddurno ystafelloedd gwely'r bobl a'r ardaloedd cymunedol yn darparu amgylchedd mwy cadarnhaol.

## Gofal a Chymorth

Mae'r staff gofal yn brofiadol ac yn adnabod y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth yn dda. Mae hyn yn eu helpu i ddarparu gofal wedi'i deilwra er mwyn gwneud y bobl yn hapus. Oherwydd y cydberthnasau cyfarwydd ac agos y maent wedi'u meithrin, mae ganddynt wybodaeth fanwl o'u diddordebau a'u hobïau personol, ac mae hyn yn creu awyrgylch cartrefol a gofalgar. Ar hyn o bryd mae un swydd wag ar gyfer staff gofal, ac mae darparwr y gwasanaeth yn recriwtio ar gyfer y swydd hon. Caiff unrhyw fylchau yn y rota eu llenwi gan y staff gofal sy'n gwneud shifftiau ychwanegol, sy'n darparu cysondeb i'r bobl.

Caiff y bobl ofal a chymorth da i ddiwallu eu hanghenion a chyflawni eu canlyniadau personol. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn fodlon ar y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael, a'u bod yn teimlo bod y staff yn eu trin â pharch. Fodd bynnag, mae angen gwella cofnodion anghenion gofal a chymorth y bobl. Mae asesiadau ar waith ar gyfer risgiau hysbys i iechyd a diogelwch y bobl, sy'n cofnodi sut y caiff y risgiau eu rheoli ond nid ydynt yn cael eu hadolygu a'u diweddaru bob amser. Mae gan y bobl gynlluniau personol, ond nid ydynt yn cynnwys eu safbwyntiau, ac nid ydynt yn darparu gwybodaeth ddigonol am sut y byddant yn cyflawni canlyniadau llesiant cadarnhaol. Er eu bod yn cael eu hadolygu bob tri mis, nid oes digon o wybodaeth i asesu faint o gynnydd y mae'r bobl wedi'i wneud. Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i ddarparwr y gwasanaeth weithredu.

Caiff iechyd corfforol ac emosiynol y bobl eu hybu'n gadarnhaol. Mae cyflyrau iechyd unigol yn hysbys a chânt eu cofnodi yn eu dogfennau gofal. Gwneir trefniadau i'r bobl weld gweithwyr iechyd proffesiynol pan fydd angen a chaiff canlyniad pob apwyntiad ei gofnodi a'i rannu â'r tîm. Rhoddir cymorth i ddilyn y cyngor a'r canllawiau a roddwyd gan weithwyr iechyd proffesiynol. Mae trefniadau ar waith i'r bobl gael eu meddyginiaeth fel y'i rhagnodwyd, sy'n eu helpu i reoli eu cyflyrau iechyd. Caiff y feddyginiaeth ei storio'n addas; fodd bynnag, roedd y gwaith cofnodi'n annigonol. Gwnaeth y rheolwr adolygu'r cofnodion rhoi meddyginiaeth cyn ysgrifennu'r adroddiad hwn ac mae'r rhain bellach yn addas at y diben.

Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Mae'r rheolwr a dau aelod o'r staff gofal yn rhugl yn y Gymraeg ac yn siarad â'r bobl yn eu dewis iaith.

## Yr Amgylchedd

Disgrifir yr adeilad a'r cyfleusterau yn y datganiad o ddiben. Yn gyffredinol, mae'r bobl yn fodlon ar eu hystafelloedd eu hunain, sydd wedi'u personoli â'u heiddo a'u lluniau eu hunain. Mae dewisiadau ar gael o ran sut mae pob unigolyn yn dymuno i'w ystafell gael ei dodrefnu. Mae hyn yn creu naws cartrefol ac yn helpu'r bobl i setlo yn eu hamgylchedd.

At ei gilydd, caiff yr amgylchedd ei gadw'n lân ac yn daclus, ond mae angen ailaddurno rhai ardaloedd. Ers yr arolygiad, mae darparwr y gwasanaeth wedi ailaddurno ystafelloedd gwely'r staff gofal. Fodd bynnag, mae angen rhoi sylw i'r neuadd, y grisiau a'r landin am fod y gwaith paent wedi'i farcio mewn mannau. Dylai darparwr y gwasanaeth ymgynghori â'r bobl i weld a hoffent i'w hystafell wely nhw gael ei hailaddurno. Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Anogir y bobl i gadw eu hystafelloedd eu hunain yn lân, ac mae'r staff yn rhoi cymorth ymarferol mewn perthynas â'r dasg hon pan fo angen.

Mae yno ardd i'r bobl ei defnyddio sy'n ardal ddymunol i eistedd ynddi ac mae'n cynnwys dodrefn gardd addas. Ers yr arolygiad diwethaf, mae rhan o'r ardd wedi cael wyneb newydd er mwyn darparu ardal barcio i'r staff gofal. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar y staff gofal am fod nifer cyfyngedig o fannau parcio ar y stryd ger y cartref.

Caiff risgiau i iechyd a diogelwch eu rheoli'n briodol. Mae trefniadau ar waith i storio a pharatoi bwyd yn ddiogel. Caiff ymarferion gwagio'r adeilad adeg tân eu cwblhau, a chaiff y system larwm tân, y system gosodiadau trydanol, y boeler a'r dyfeisiau eu gwirio, fel sy'n ofynnol. Mae hyn yn golygu bod y bobl yn cael eu cefnogi mewn amgylchedd byw diogel.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gall y bobl gael gafael ar wybodaeth ysgrifenedig am y gwasanaeth a ddarperir. Mae datganiad o ddiben ar waith, sy'n disgrifio'r gwasanaeth a ddarperir a sut y caiff ei ddarparu yn glir. Mae canllaw hawdd ei ddarllen ar gael i ddefnyddwyr y gwasanaeth, sy'n helpu'r bobl i wneud penderfyniad hyddysg am ddefnyddio'r gwasanaeth. Mae trefniadau addas ar waith i oruchwylio'r gwaith o redeg y gwasanaeth yn hwylus o ddydd i ddydd. Mae'r rheolwr yn rheoli darpariaeth y gwasaneth yn y cartref a chaiff ei chefnogi yn ei rôl fel dirprwy reolwr. Ceir llinellau cyfathrebu clir rhwng yr unigolyn cyfrifol a'r rheolwr. Mae'r rheolwr a'r rhan fwyaf o'r staff gofal wedi gweithio yn y cartref am sawl blwyddyn ac yn dweud wrthym eu bod yn mwynhau eu gwaith ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda. Mae'r cofnodion yn cadarnhau bod y staff gofal yn mynychu cyfarfodydd goruchwylio un i un a chyfarfodydd tîm. Mae'r staff gofal yn cwblhau hyfforddiant i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol. Ceir diwylliant agored a thryloyw ar lefel reoli o fod yn awyddus i gydweithio i ddarparu gwasanaeth o ansawdd da, sy'n gwella bywydau'r bobl a gefnogir.

Rhoddodd y rheolwr wybod i ni ei fod yn cael ei gefnogi’n dda gan yr Unigolyn Cyfrifol. Mae’r Unigolyn Cyfrifol wedi ymweld â'r gwasanaeth ac wedi llunio adroddiadau yn sgil ei ymweliadau, sy’n dangos ei fod yn ymgynghori â'r bobl, y rheolwr a’r staff gofal. Mae’r Unigolyn Cyfrifol wedi cynnal adolygiad ffurfiol o ansawdd y gofal, ond nid mor aml ag y dylid yn unol â'r rheoliadau. Mae hwn yn faes y mae angen ei wella, ac rydym yn disgwyl i ddarparwr y gwasanaeth weithredu.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 15 | Nid yw'r cynlluniau personol yn ystyried dymuniadau, dyheadau nag anghenion gofal a chymorth personol y bobl. Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau bod cynlluniau personol yn cael eu llunio ar y cyd â'r unigolyn ac yn adlewyrchu eu canlyniadau personol. | Newydd |
| 16 | Er y caiff cynlluniau personol eu hadolygu o fewn yr amserlen ofynnol, nid oes unrhyw wybodaeth am y graddau y mae'r bobl wedi cyflawni eu canlyniadau personol. | Newydd |
| 44 | Mae angen ailaddurno'r neuadd ac ystafelloedd gwely'r bobl. Dylai'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod y cartref yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol. | Newydd |
| 73 | Nid yw'r Unigolyn Cyfrifol wedi ymweld â'r gwasanaeth yn ôl yr angen. Mae'n rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol ymweld â'r gwasanaeth o leiaf unwaith bob 3 mis. | Newydd |
| 80 | Nid yw'r Unigolyn Cyfrifol wedi gwneud darpariaeth er mwyn i ansawdd y gofal a'r cymorth gael ei adolygu mor aml ag sy'n ofynnol. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol adolygu ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir o leiaf bob chwe mis. | Newydd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 29/08/2023